
GWAHODDIAD I DENDR
CYFRES DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwyd: | 15 Mai 2017 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau: | Canol dydd 12:00 16 Mehefin 2017 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am eglurhad: | Canol dydd 12:00 7 Mehefin 2017 |

GWAHODDIAD I DENDR

TENDR DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL

1. Rhagarweiniad

Cyfres grefyddol yw Dechrau Canu, Dechrau Canmol ("DCDC") sy'n ganolog i amserlen S4C o fewn yr oriau brig.

Dros y blynyddoedd, mae DCDC wedi gwasanaethu'r gynulleidfa yn ffyddlon ac wedi denu carfan o wylwyr cyson yn enwedig ymysg y gynulleidfa graidd, 65+. Ond wrth i sianeli eraill gystadlu fwyfwy am sylw'n cynulleidfa mae'n amser i adfywio ac ail-lunio'r gyfres bwysig hon er mwyn cynyddu'r gwylwyr a sicrhau ei hir-hoedledd. Gwahodddwn geisiadau am syniadau newydd o'r safon uchaf fydd, nid yn unig yn ail gydio yn niddordeb y gynulleidfa graidd ond hefyd yn ymestyn apêl DCDC a'i hoelio o'r newydd ym mywydau a chalonnau'r gwylwyr.

Amcan sylfaenol Strategaeth Cynnwys newydd S4C yw comisiynu rhaglenni sydd yn creu'r sgwrs, cyffwrdd y galon a thanio'r dychymyg. Yn gyffredinol, rydym yn chwilio am gynnwys sydd yn teimlo'n berthnasol ac yn bwysig i'r gwylwyr, yn adlewyrchu Cymru heddiw ac sydd yn denu ystod eang o bobl i wylwyr ar y cyd ar draws amrywiaeth o lwyfannau.

Mae disgwyl felly i'r tendr llwyddiannus am y gyfres hon fod yn uchelgeisiol, ffres a dyfeisgar, gyda gwerthoedd cynhyrchu cyson o'r safon uchaf. Dylai naratif cryf a dirdynol fod yn gysail i bob rhaglen gyda chynnwys sy'n gallu ysbrydoli a chynhyrfu yn ogystal â symbylu trafodaeth a sgwrs. Er mai cynulleidfa graidd yw'r prif darged, disgwylir i'r syniad llwyddiannus apelio'n eang ar draws sawl demograffeg o wylwyr gan dargedu'r rhai 45 - 64 oed yn benodol. Rhaid i'r cynnwys adlewyrchu ardaloedd, pobl a chymunedau amrywiol Cymru heddiw. Disgwylir i gyflwynydd neu gyflwynwyr sydd â'r gallu i gyfathrebu yn rhwydd ac yn rhugl yn y Gymraeg chwarae rhan ganolog yn y gyfres. O wythnos i wythnos, disgwylir i bob rhaglen yn y gyfres ddilyn patrwm gyda churiadau fformat cyson ond ysgafn. Yn ychwanegol i'r rhaglenni arferol hanner awr o hyd, ceir cyfle i nodi prif wyliau'r calendr eglwysig a digwyddiadau eraill gyda rhaglenni arbennig awr o hyd. Yn y gorffennol mae'r rhain wedi cynnwys Y Pasg a'r Nadolig, Gŵyl Ddewi, Sul y Cofio ac achlysuron cenedlaethol megis Cymantfa'r Urdd a chymanfaoedd cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol.

Disgwylir i'r cwmnïau cynhyrchu ystyried yr amcanion golygyddol uchod wrth lunio eu cais, ac i nodi sut fyddai'r amcanion yn cael eu gwireddu drwy gydol y broses gynhyrchu ac yn amlygu eu hunain yn y rhaglenni gorffenedig.

2. Ystod y cytundeb

£730K y flwyddyn fydd amcan bris y gyfres. Bob blwyddyn bydd 32 rhaglen hanner awr o hyd, yn ogystal â dwy raglen "arbennig" awr o hyd. Noder nad oes unrhyw doriadau hysbysebu ac y bydd union hyd y rhaglenni yn 25 munud a 55 munud.

Bwriad S4C yw cynnig cytundeb tair blynedd i'r cwmni llwyddiannus (Awst 2017 hyd Gorffennaf 2020). Disgwylir darlledu'r rhaglen gyntaf yn y gyfres ym mis Ionawr 2018.

3. Manylion eich Cais

Gofynnir i chi gyflwyno eich cais yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â gofynion y gwahoddiad i dendr hwn, ar ffurf electronig, erbyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro a nodir yn Rhan 4 isod. Mae'n ofynnol i chi gynnwys y canlynol yn eich cais:

1. Darparwch fanylion profiad pethnasol y cwmni. Dylai manylion y profiad focysu ar fanylion **hyd at dri** cynhyrchiad yn unig y mae'r cwmni wedi cynhyrchu a chyfleu yn llwyddianus i ddarlledwr yn y DU. Dylai'r cynhyrchiadau enghreifftiol fod yn rhai uchelgeisiol ac yn gyfresi hir sy'n dychwelyd ym mhrif amserlen darlledwr.

2. Disgrifiad o batrwm y rhaglenni gan nodi'r curiadau fformat cyson ond ysgafn a'r math o ddarpariaeth y byddwch yn ei gynnig er mwyn cyflenwi 32 rhaglen hanner awr a 2 raglen arbennig sydd yn cwrdd â'r gofynion golygyddol a nodir ym mharagraff 1 uchod.
3. Llif gwaith yn amlinellu'r dulliau a'r patrwm cynhyrchu gan nodi'r elfennau technegol a gweithredol er mwyn gwireddu'r dyhead golygyddol a gofynion cyfleu S4C.
4. Llif gwaith yn amlinellu'r patrwm ôl gynhyrchu ac is-deitlau agored er mwyn sicrhau cymeradwyaeth amserol a rheolaidd gan Gomisiynydd S4C ac i gwrdd â'r gofynion cyfleu. Fel arfer mae S4C yn gofyn i raglenni sydd wedi eu recordio o flaen llaw gael eu cyfleu o leiaf 6 wythnos cyn y dyddiad darlledu. Os ydych am gynnig syniad sy'n seiliedig ar raglen cyfredol ei natur, bydd angen ichi ddisgrifio sut a phryd yr ydych yn bwriadu cyfleu ar amser a sut y byddwch yn sicrhau cymeradwyaeth olygyddol gan S4C cyn darlledu.
5. Enwau a phrofiad perthansol cyflwynydd(wyr)* y dymunech eu defnyddio gan nodi eu gallu ieithyddol (Cymraeg)

*Noder nad oes rhaid sicrhau caniatâd yr unigolion yma ar hyn o bryd.

6. Enwau a disgrifiad o brofiad perthnasol y personél allweddol** gan nodi'r canlynol
 - (a) Uwchgynhyrchydd
 - (b) Cynhyrchydd/Cyfarwyddwyr
 - (c) Rheolwr Cynhyrchu (neu rôl cyffelyb sydd â gofal gweithredol y cynhyrchiad o ddydd i ddydd)
 - (ch) Unrhyw aelodau eraill yr ydych chi yn gweld yn allweddol i lwyddiant y gyfres.

**Bydd angen i chi fod wedi cael caniatâd y personél allweddol i ddefnyddio eu henwau yn eich cais (ar wahân i'r cyflwynwyr). Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, gall S4C ofyn i chi ddod â phrawf ysgrifenedig o'u caniatâd i'r cyfweliad.

7. Cyllideb yn seiliedig ar y manylion yn y gwahoddiad i dendro hwn a'r Nodiadau Ariannol yn Atodlen A.
8. Sylwadau cyfreithiol yn deillio o'r Nodiadau Cyfreithiol yn Atodlen B a'r Cytundeb Drafft.
9. Y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol yn Atodlen C wedi ei gwblhau.

Uchafswm Tudalennau

Dylech geisio bod yn gryno wrth ddrafftio eu ceisiadau. Ni ddylai ceisiadau gynnwys mwy na 5 tudalen yn disgrifio'r elfennau golygyddol a dim mwy na 15 tudalen ar gyfer yr elfennau eraill (ac eithrio'r gyllideb, sylwadau cyfreithiol a'r Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol). Ni ddylid defnyddio maint ffont llai na Verdana 10. Mae S4C yn cadw'r hawl i eithrio o'r broses dendro unrhyw ymateb i'r tendr nad sydd yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

4. Camau ac Amserlen y Broses Tendr

Cam 1.

Fe ofynnir i chi anfon eich cais yn electroneg (gan gynnwys y gyllideb) at:

Cyfeiriad e-bost tendr@s4c.cymru

Ceisiadau i'w derbyn erbyn 12:00 canol dydd **Dydd Gwener 16 Mehefin 2017**

Os hoffech ddarparu deunydd clyw-weledol i gefnogi eich cais, dylid cynnwys dolen electronig (URL) i'r cynnwys a chyfrinair, lle'n briodol. Ni ddylid danfon ebost yn cynnwys ffeil electroneg o ddeunydd clyw-weledol.

NI DDERBYNNIR UNRHYW GYNIGION A DDAW I LAW WEDI'R DYDDIAD A'R AMSER CAU.

Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddiffygion mewn unrhyw system drosglwyddo nac am unrhyw gynigion sydd yn mynd ar goll, yn cael eu hoedi neu'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb y cwmni yw sicrhau fod ei gais (ynghyd ag unrhyw atodiadau perthnasol) wedi ei baratoi mewn da bryd (gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y gall staff fod yn absennol neu fethiannau technegol) ac y caiff ei gyflwyno cyn y dyddiad a'r amser cau. Ni ystyrir prawf o anfon y cais fel prawf o'i dderbyn ac anogir i bob cwmni i holi am gadarnhad o dderbyn y cais.

Noder taw 20Mb ydy uchafswm maint e-bost y mae S4C yn medru derbyn a chaniateir ffeiliau yn fformat Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r ffeiliau hyn yn dderbyniol fel ffeiliau Zip. Dylai Cwmnïau fod yn ymwybodol y gallai eu ISP (Internet Service Provider) osod cyfyngiadau is ar uchafswm maint e-bost ac felly fe'u cynghorir i gadarnhau cyfyngiadau maint gyda'u ISP neu adran TG ymhell cyn terfynau amser anfon a derbyn gwybodaeth.

Bydd panel o gynrychiolwyr S4C yn asesu'r holl gynigion ac yn llunio rhestr fer o'r rheini sydd wedi sgorio uchaf ar gyfer Cam 2. Bydd S4C yn hysbysu'r cwmnïau ar y rhestr fer cyn diwedd y dydd **Dydd Iau 22 Mehefin 2017**. Bydd S4C yn hysbysu'r cwmnïau na fu'n llwyddiannus ar yr un diwrnod.

Cam 2.

Byddwn yn gwahodd y cwmnïau ar y rhestr fer i gyfweiliad yn S4C ar **Dydd Mawrth 27 Mehefin neu Dydd Mercher 28 Mehefin 2017**.

Mi fydd disgwyl i bob Cwmni roi cyflwyniad byr o ddim mwy na 15 munud am eu cais ac yna i ateb cwestiynau gan banel S4C yn seiliedig ar y cais. Ni ddylid cyflwyno syniadau golygyddol newydd fel rhan o'r cyfweiliad, dylai'r holl syniadau golygyddol gael eu cynnwys yn y cais cychwynnol.

Yn dilyn y cyfweiliadau, bydd S4C yn anelu i gysylltu gyda'r Cwmni llwyddiannus erbyn diwedd y dydd **Dydd Llun 3 Gorffennaf 2017** a gyda'r cwmnïau eraill a gafodd eu cyfweild i'w hysbysu na fuont yn llwyddiannus ar yr un adeg.

Neilltuir cyfnod o fis i drafod unrhyw faterion cyllidebol a chytundebol eraill a disgwylir arwyddo'r cytundeb terfynol cyn **3 Awst 2017**.

6. Ffactorau Comisiynu

1. Profi Cydymffurfiaeth

Cyn cychwyn ar y broses ffurfiol o werthuso'r ceisiadau, bydd S4C yn archwilio'r ceisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y gwahoddiad i dendr yn llawn gan gynnwys sicrhau bod y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol wedi ei chwblhau yn foddhaol. Gellid gwrthod ymatebion tendro nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd S4C yn gwerthuso ymatebion tendro sy'n cydymffurfio yn llawn, yn unol â'r darpariaethau'r rhan hwn.

2. Gwerthuso

Ystyrir y ceisiadau gan banel o swyddogion S4C. Y panel hwn fydd yn ystyried y manylion a gynhwysir yn y ceisiadau ac unrhyw wybodaeth bellach neu bwyntiau o eglurhad a dderbyniwyd yn y cyfweiliad(au) neu fel ymateb i gwestiynau penodol, ac yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran y tendr yn ôl disgrisiwn llwyr ei hun.

Seilir y penderfyniad terfynol ar y tendr llwyddiannus (os o gwbl) ar y criteria canlynol ac mae uchafswm y sgôr yn erbyn pob ffactor wedi'i nodi isod:

| Criteria asesu | Uchafswm y Sgôr |
|---|------------------------|
| Gallu'r manylion golygyddol â gyflwynwyd yn y cais i ateb prif ofynion golygyddol S4C sef cyfres sydd yn: | 25% |

| | |
|---|-----|
| <ul style="list-style-type: none"> - uchelgeisiol, ffres a dyfeisgar - creu sgwrs - cyffwrdd y galon â naratif cryf dirdynol - tanio'r dychymyg, yn ysbrydoli a chynhyrfu - berthnasol a phwysig i'r gwylwyr - adlewyrchu ardaloedd, pobl a chymunedau amrywiol Cymru heddiw - apelio yn arbennig i gynulleidfa darged 45 – 64 a 65+ <p>Manylion cyflwynydd neu gyflwynwyr sydd â phrofiad cyflwyno, personoliaeth ar sgrin deniadol a'r gallu i gyfathrebu yn rhwydd ac yn rhugl yn y Gymraeg</p> | |
| Manylion ac eglurder y curiadau fformat cyson ond ysgafn fydd yn galluogi'r cwmni i gyfleu'r prif ofynion golygyddol | 10% |
| Profiad perthnasol yr ymgeisydd o ddarparu cyfresi uchelgeisiol sy'n gyfresi hir sy'n dychwelyd ym mhrif amserlen darlledwr | 10% |
| Gallu'r llif gwaith technegol a gweithredol sy'n amlinellu'r dulliau a'r patrwm cynhyrchu i wireddu'r dyheadau golygyddol a'r gofynion cyfleu | 15% |
| Gallu'r llif gwaith sy'n amlinellu'r patrwm ôl gynhyrchu ac isdeitlau agored i gwrdd â gofynion S4C | |
| <p>Personel Allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Uwchgynhyrchydd â phrofiad o gyfleu cyfresi uchelgeisiol sy'n dychwelyd â'r un math o elfennau golygyddol a nodir yn y cais - Cynhyrchydd/Cyfarwyddwr â phrofiad o gynhyrchu/cyfarwyddo cynnwys uchelgeisiol â'r un math o elfennau golygyddol a nodir yn y cais - Rheolwr Cynhyrchu â phrofiad o redeg cynhyrchiad o'r un maint gan gynnwys rheoli agweddau ariannol, amserlenni, cyfleu technegol, cliriadau a chyfleu gwaith papur - Unrhyw aelodau allweddol eraill a nodir yn y cais | 10% |
| Y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael | 25% |
| Sylwadau ar y Nodiadau Cyfreithiol a'r Cytundeb Drafft | 5% |

7. Ymholiadau pellach

Rhaid gwneud pob math o gyswllt mewn perthynas â'r broses dendro hon, gan gynnwys unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad wrth gwblhau ymatebion tendro, ar ffurf neges e-bost i S4C, a'u hanfon at **cwestiynautendr@s4c.cymru**.

Ni ddylech drafod neu ofyn am wybodaeth ynghylch y broses dendro hon mewn unrhyw ffordd gan unrhyw swyddog, cyflogai, asiant neu gynghorwr arall S4C.

Fe'ch annogir i nodi unrhyw arweiniad a/neu wybodaeth bellach y mae'n bosib y bydd ei hangen arnynoch mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ceisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yw **canol dydd 12:00 Mercher 7fed o Fehefin 2017**. Ni ystyrir unrhyw geisiadau a fydd yn cael eu gwneud ar ôl y dyddiad cau hwn. Bydd S4C yn ceisio delio â'r holl geisiadau a wneir cyn y dyddiad cau hwn mewn ffordd brydlon.

Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, sylwer y bydd yr holl geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad ynghylch y broses dendro hon, ynghyd ag ymatebion S4C i geisiadau o'r fath, yn cael eu datgelu i'r holl ymgeiswyr. Bydd datgeliadau o'r fath yn cael eu gwneud drwy eu postio ar wefan S4C ar <http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/12783/tendrau-20/> erbyn **9fed o Fehefin 2017**.

Os ydych o'r farn bod unrhyw gais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yn sensitif ar lefel fasnachol, rhaid ichi nodi "sensitif yn fasnachol" yn eglur ar y cais, a nodi'r rhesymau pam eich bod o'r farn ei fod yn sensitif ar lefel fasnachol. Sylwer, fodd bynnag, y bydd S4C yn penderfynu, yn unol â'i disgrisiwn llwyr, a yw'n ystyried bod unrhyw gais o'r fath yn sensitif ar lefel fasnachol. Os bydd S4C yn penderfynu bod cais yn sensitif ar lefel fasnachol, ni fydd S4C yn datgelu'r cais na'i hymateb i gais o'r fath, i ymgeiswyr eraill. Os bydd S4C yn penderfynu nad yw cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd yn hysbysu'r ymgeisydd perthnasol o hyn. Os bydd yr ymgeisydd yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd S4C yn ymateb i'r cais a bydd ganddi'r hawl i ddatgelu'r cais, a'i hymateb iddo, i'r holl ymgeiswyr. Os na fydd yr ymgeisydd yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol neu os na fydd yn hysbysu S4C a yw'n cytuno cyn pen un diwrnod gwaith, ystyrir bod y cais yn cael ei dynnu yn ôl ac ni fydd S4C yn ymateb iddo. Ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn cael ei ddehongli fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar allu S4C i ddatgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw unigolyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn cydymffurfio â'i hymrwymiaadau rhyddid gwybodaeth, fel yr amlinellir yn y Nodiadau Cyfreithiol isod.

Bernir bod unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt a ddatgelir i'r holl ymgeiswyr, yn rhan o'r gwahoddiad i dendr hwn.

Noder os gwelwch yn dda

Mae'r gwahoddiad yn ddarostyngedig i'r Nodiadau Cyfreithiol yn **Atodlen B** ac yn agored i bob cwmni sy'n credu y gallant gwrrd â gofynion a chriteria'r hyn a gynhwysir yn y gwahoddiad, yn ddarostyngedig yn unig i'r cyfyngiadau ariannol yn y gwahoddiad. Yn benodol nid yw'r gwahoddiad wedi ei gyfyngu i gwmnïau o faint arbennig nag o unrhyw ardal(oedd) daearyddol arbennig.

Yn y pen draw, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i gynnig y tendr i unrhyw gwmni ac nid oes unrhyw beth yn y ddogfen hon sy'n gorfodi S4C i wneud hynny. Yn benodol ond heb gyfyngiad, bydd gan S4C y dewis o gynnig y comisiwn i gynhyrchu a chyfleu'r gwasanaethau naill ai i un cwmni cynhyrchu neu i rannu'r comisiwn rhwng dau neu fwy o'r cwmnïau cynhyrchu, pe bai'n anfodlon ag ansawdd y geisiadau neu os na fydd ymateb digonol i'r gwahoddiad hwn i dendro.

Rhestr yr atodlenni

ATODLEN A - Nodiadau Ariannol

ATODLEN B - Nodiadau Cyfreithiol

ATODLEN C – Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol

ATODLEN A

Nodiadau Ariannol

Ar gyfer Cam 1 mae S4C yn disgwyl i bob cais gynnwys cyllideb ar ffurf safonol electroneg (36 atodlen) S4C. Mae copiâu ar gael ar http://www.s4c.co.uk/media/media_assets/Templed_Cyllideb_Safonol_S4C_1.xls

Dylid paratoi'r gyllideb ar y rhagdybiaethau canlynol:

1. Ar gyfer cyllideb rhaglenni 2017/18 dylid cynnwys y gost o gynhyrchu 32 rhaglen hanner awr o hyd a dwy raglen awr o hyd.
2. Dylid cynnwys o gost o ddarparu capsiynau (is-deitlau agored) o eiriau'r emynau, ond ni ddylid cynnwys y gost o is-deitlo'r rhaglenni.
3. Cyfrifoldeb y cwmni fydd clirio unrhyw gynnwys megis cyfranwyr, deunydd 3dd parti, cerddoriaeth ayyb. Dylid cynnwys y gost o glirio'r hawliau ar gyfer darllediadau a'r hawliau ar-lein byd-eang priodol ac yn benodol:
 - 2 ddarllediad ar wasanaethau S4C (gan gynnwys darlledu a llifo cydamserol ar y we) + 35 diwrnod "dal i fyny" yn fyd-eang i gyd-fynd â phob darllediad ar wasanaethau ar-lein S4C y'u darperir gan, ar ran neu gyda chaniatâd S4C ar sail llifo ac, yn y DU yn unig, lawrlwytho dros-dro.
 - Yr hawl i ddefnyddio'r deunydd trydydd-bartion at bwrpasau hyrwyddo darllediad y Rhaglen yn unig.

Dylid nodi unrhyw gyfyngiadau yn y cais / manylion y gyllideb.

4. Ni fydd Cod Ymarfer S4C yn weithredol o ran y tendr hwn na'r rhaglenni a bydd yr holl hawlfraint a'r hawliau eraill yn y rhaglenni yn eiddo i S4C (mewn perthynas ag S4C a'r cwmni cynhyrchu yn unig) a bydd disgwyl i'r cwmni cynhyrchu gynnwys y gost o sicrhau ac o aseinio'r fath hawliau yn y rhaglenni i S4C yn y gyllideb.
5. Dylid cynnwys y gost o gydymffurfio yn llawn â Gofynion Cyfleu a Safonau Technegol S4C http://www.s4c.cymru/media/media_assets/2016.12.01_Safonau_Technegol_S4C.pdf a http://www.s4c.cymru/media/media_assets/20170215_Gofynion_Cyfleu_S4C_Mawrth_2016.pdf.
6. Dylid cynnwys y gost o yswirio'r gwaith cynhyrchu ynghyd â ffi rheoli a chostau gweinyddol cysylltiedig â chynhyrchu'r rhaglenni.
7. Dylid cynnwys y gost o gydymffurfio yn llawn â chanllawiau S4C fel y nodir yn **Atodlen B**.

Bydd angen i bob cais fanylu os oes posibilrwydd o dderbyn arian neu gymorth ariannol o unrhyw ffynhonnell arall, h.y. os yw'r cyllidebau wedi eu paratoi ar y rhagdybiaeth o dderbyn unrhyw grant. Fodd bynnag, noder os gwelwch yn dda mai mater i S4C yn unig yw trefnu unrhyw nawdd neu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni ac ni ddylai unrhyw gwmni gyflwyno cais ar y sail neu'r ddamcaniaeth y bydd modd iddo sicrhau ffynhonnell ychwanegol o arian (uwchlaw pris y cytundeb a gymeradwyir gan S4C) drwy sicrhau nawdd neu werthu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni

ATODLEN B

Nodiadau Cyfreithiol a Chytundebol

1 Dim ymrwymiad i gynnig y cytundeb

Ni fydd unrhyw beth yn y ddogfen hon neu mewn unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a chi ynghylch y broses hon neu'r ymateb yn gyfystyr â chytundeb i ddarparu unrhyw cynnyrch neu wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses hon, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gytundeb yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gytundeb gael ei ddyfarnu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses hon ar unrhyw adeg, i beidio dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r ddogfen hon a/neu i ofyn i chi egluro eich ymateb a/neu darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â hynny.

2 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhaid ichi ddarparu manylion os y rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'ch cais a staff S4C. Mae hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei fod yn neilltuo staff i'r broses hon nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw cais i ddarparu y nwyddau/gwasanaethau.

3 Cytundeb

Cynigir cytundeb o 3 blynedd. Bydd S4C yn adolygu'r cytundeb a pherfformiad y Cwmni llwyddiannus yn ystod cyfnod y cytundeb a cedwir yr hawl i derfynu'r cytundeb yn dilyn y fath adolygiad. Bydd yr adolygiad hwn yn ychwanegol i unrhyw adolygiadau golygyddol neu ariannol rheolaidd sydd yn cael eu cynnwys yn y cytundeb.

Ni fydd Còd Ymarfer S4C yn weithredol i'r tendr hwn a'r rhaglenni a bydd yr holl hawlfraint a'r hawliau eraill yn y rhaglenni yn eiddo i S4C. O ganlyniad, caiff y Cwmni llwyddiannus (os yn berthnasol) ei gytundebu ar y sail y bydd S4C yn ariannu'r gost o gynhyrchu'r rhaglenni yn llwyr ac, mewn cydnabyddiaeth o hynny, yn cymryd yr holl hawlfraint a hawliau eraill yn y rhaglenni.

Yn benodol, caiff cwmni llwyddiannus ei gytundebu yn unol â thelerau ac amodau'r cytundeb comisiynu drafft sydd ynghlwm. Fodd bynnag, mae S4C yn cadw'r hawl i amrywio a diwygio'r cytundeb comisiynu drafft yn y fath fodd ag y mae S4C yn ystyried yn angenrheidiol ac fe fydd rhaid i'r cytundeb adlewyrchu a chadarnhau ar ba delerau y cynigiwyd y comisiwn i'r Cwmni llwyddiannus (os yn berthnasol).

Dylai unrhyw sylwadau ar y cytundeb drafft gael eu cynnwys yn eich cais. Fel arall, cymerir yn ganiataol eich bod yn derbyn telerau ac amodau'r dogfennau yma.

Nid yw hysbysiad o sylwadau yn golygu o reidrwydd bod S4C yn eu derbyn. Mae S4C yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cytundeb drafft ar ôl ei gyhoeddi unwaith bydd manylion y cais llwyddiannus yn hysbys. Os, yn dilyn gwobrwyo'r tendr, na fydd trafodaethau ariannol neu gytundebol yn datblygu'n foddhaol cedwir yr hawl gan S4C i gynnig y tendr i ymgeisydd arall neu i ail dendro.

S4C a'r cwmni llwyddiannus fydd yr unig bartïon i'r cytundeb.

Nid oes rheidrwydd ar S4C i dderbyn holl elfennau'r cynnig llwyddiannus (os yn berthnasol). Gall dderbyn elfennau o un neu fwy o'r cynigion. Gall hyn olygu bod Cwmnïau yn cyd-weithio gydag eraill er mwyn darparu'r gwasanaethau mae S4C ei angen. Rydych yn cytuno i hyn wrth gyflwyno'r cais.

4 Gofynion gwaelodol

Bydd yn rhaid i'r Cwmni llwyddiannus gydymffurfio â'r canlynol (ymysg eraill):

- Cod Darlledu Ofcom;
- Cyfraith ac Ymarfer Da'r Diwydiant ar faterion Iechyd a Diogelwch;
- Polisi Gwarchod Plant S4C
- Gofynion Technegol S4C ;
- Canllawiau Brand S4C
- Canllawiau Ymarfer Da S4C ar Gyfer Cystadlaethau
- Ymrwymiad i Amrywiaeth S4C
- unrhyw ganllawiau eraill sy'n weithredol i S4C neu wasanaethau S4C ar adeg y darllediadau

Fe ddylai pob cais gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod. Mae mwyafrif canllawiau S4C wedi eu cynnwys ar safle [Cynhyrchu S4C](#). Os oes angen copïau, dylid cysylltu gyda Materion Busnes S4C.

5 Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C. Os byddwch o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylech nodi hynny yn benodol yn eich ymateb gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif. Fodd bynnag, rhaid ichi dderbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddi wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda RhG. Mae S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei disgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlenni.

6 Diogelu Data

Trwy gyflwyno ymateb rydych yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarparwyd fel rhan o'ch ymateb yn unol â Ddeddf Diogelu Data 1998 ac rydych yn cadarnhau eich bod wedi sicrhau caniatâd trydydd parti angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i wneud hynny.

7 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd

Trwy gyflwyno ymateb, rydych yn cytuno i gadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i chi gan S4C mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses hon. Rydych yn cytuno i beidio defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o baratoi'r ymateb, ac i beidio datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i'w gwybod, i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r ymateb i S4C yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu iddynt gan S4C.

Trwy gyflwyno ymateb i'r cais yma am bris rydych yn cytuno i sicrhau na fydd unrhyw aelod o'ch staff neu unrhyw berson sydd yn eich cyngori neu sydd yn rhan o'ch ymateb yn gwneud datganiad cyhoeddus o unrhyw fath (gan gynnwys, heb gyfyngiad, safleoedd gwe rhwydweithio cymdeithasol, megis Facebook neu Twitter neu fel arall) yn gysylltiedig â thestun y cais yma am bris neu unrhyw benderfyniad S4C ynglych unrhyw elfen o'r broses gystadleuol yma heblaw fod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw i'r fath gyfathrebiad.

8 Ymwadiad

Nid yw S4C yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y ddogfen hon ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o'r fath ar eich risg eich hunain.

9 Dim cyd-gynllunio

Drwy gynnig ymateb i'r ddogfen hon, rydych yn cadarnhau:

1. bod yr ymateb yn "bona fide" ac yn gystadleuol;
2. nad ydych wedi gosod neu newid yr ymateb yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw berson neu gwmni arall i wneud yr un peth; ac
3. nad ydych wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C ynglŷn â swm neu fras brisoedd eich ymateb, heblaw lle'r oedd y fath drafod yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris arall ar gyfer paratoi'r ymateb i'r ddogfen hon.

10 Ymddygiad Amhriodol

Os ydych chi neu'r rheini sydd yn eich cynghori yn gwneud unrhyw ymgais i ddylanwadu yn amhriodol ar y broses gystadleuol yma neu'r penderfyniad i wobrwyo'r cytundeb mewn unrhyw ffordd, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso eich ymateb i'r broses gystadleuol yma yn nisgresiwn llwyr S4C . Os ydych chi neu'r rheini sydd yn eich cynghori yn gwneud unrhyw ymgais i ganfasio unrhyw aelod o staff S4C yn gysylltiedig â'r broses gystadleuol yma neu ymgais i gael gwybodaeth gan unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C ynglŷn ag unrhyw sefydliad arall sydd yn rhan o'r broses gystadleuol yma, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso eich ymateb yn nisgresiwn llwyr S4C.

11 Cyfraith Lywodraethol

Llywodraethir y ddogfen hon gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac rydych yn cytuno, trwy ddychwelyd ymateb, i ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

ATODLEN C

FFURFLEN WYBODAETH SYLFAENOL

ADRAN 1 - Gwybodaeth am y Darparwr

| 1.1 Manylion am y Darparwr | Ateb | |
|--|--|------------------------------|
| Enw llawn y Darparwr sy'n cwblhau'r ymateb i'r Tendr | | |
| Cyfeiriad cwmni cofrestredig | | |
| Rhif cwmni cofrestredig | | |
| Rhif elusen cofrestredig | | |
| Rhif TAW cofrestredig | | |
| Enw rhiant gwmni uniongyrchol | | |
| Enw rhiant gwmni terfynol | | |
| <i>Rhowch 'X' yn y blwch perthnasol i nodi eich statws masnachu</i> | i) cwmni cyfyngedig cyhoeddus | <input type="checkbox"/> Ie |
| | ii) cwmni cyfyngedig | <input type="checkbox"/> Ie |
| | iii) partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig | <input type="checkbox"/> Ie |
| | iv) partneriaeth arall | <input type="checkbox"/> Ie |
| | v) unig fasnachwr | <input type="checkbox"/> Ie |
| | vi) arall (nodwch os gwelwch yn dda) | <input type="checkbox"/> Ie |
| <i>Rhowch 'X' yn y blwch perthnasol i nodi os oes unrhyw un o'r categorïau hyn yn berthnasol i chi</i> | i) Menter Wirfoddol, Gymunedol a Chymdeithasol (VCSE) | <input type="checkbox"/> Ydy |
| | ii) Menter Fach neu Ganolig (SME) ¹ | <input type="checkbox"/> Ydy |
| | iii) Gweithdy Gwarchodol | <input type="checkbox"/> Ydy |
| | iv) Gwasnaeth cyhoeddus cydfuddiannol (<i>Public service mutual</i>) | <input type="checkbox"/> Ydy |

¹ Gweler diffiniad yr UE o SME: <http://ec.europa.eu/enterprise/policies/sme/facts-figures-analysis/sme-definition/>

| 1.2 Model Bidio | |
|---|---|
| Rhowch 'X' yn y blwch perthnasol i nodi os ydych yn: | |
| a) Bidio fel Prif Gontractwr a byddwch yn cyflawni 100% o'r deunyddiau allweddol o dan y cytundeb eich hun | <input type="checkbox"/> Ydw |
| b) Bidio fel Prif Gontractwr a byddwch yn defnyddio trydydd bartion i gyflawni <u>rhai</u> o'r gwasanaethau <i>Os ydych, darparwch fanylion am eich model bidio arfaethedig sy'n cynnwys aelodau'r gadwyn gyflenwi, y canran o'r gwaith a gaiff ei gyflawni gan bob is-gontractiwr a'r deunyddiau allweddol y bydd pob is-gontractiwr yn gyfrifol am eu darparu.</i> | <input type="checkbox"/> Ydw |
| c) Bidio fel Prif Gontractwr ond byddwch yn gweithredu fel Asiant Rheoli a byddwch yn defnyddio trydydd bartion i gyflawni'r gwasanaethau i <u>gyd</u> <i>Os ydych, darparwch fanylion am eich model bidio arfaethedig sy'n cynnwys aelodau'r gadwyn gyflenwi, y canran o'r gwaith a gaiff ei gyflawni gan bob is-gontractiwr a'r deunyddiau allweddol y bydd pob is-gontractiwr yn gyfrifol am eu darparu.</i> | <input type="checkbox"/> Ydw |
| d) Bidio fel consortiwm ond nid ydych yn cynnig ffurfio endid cyfreithiol newydd. <i>Os ydych, nodwch fanylion am eich consortiwm yn y golofn nesaf a defnyddiwch Atodlen ar wahân i esbonio'r trefniadau arall h.y. pam nad oes endid cyfreithiol newydd yn cael ei chreu.</i> <i>Sylwer y gall S4C fynnu i'r consortiwm gymryd ffurf gyfreithiol benodol os dyfernir y cytundeb iddo, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau perfformiad boddhaol o'r cytundeb.</i> | <input type="checkbox"/> Ydw <u>Aelodau'r consortiwm</u> <u>Aelod arweiniol</u> |
| e) Bidio fel consortiwm ac yn bwriadu creu Cyfrwng Diben Arbennig (SPV). <i>Os ydych, nodwch fanylion eich consortiwm, aelod arweiniol cyfredol a'r SPV a fwriedir yn y golofn nesaf a darparwch fanylion llawn o'r model bidio gan ddefnyddio Atodlen ar wahân.</i> | <input type="checkbox"/> Ydw <u>Aelodau'r consortiwm</u> <u>Aelod arweiniol cyfredol</u> <u>Enw'r Cyfrwng Diben Arbennig</u> |

| 1.3 Manylion cyswllt | |
|--|--|
| Manylion cyswllt yr Ymgeisydd ar gyfer ymholiadau am yr ymateb i'r Tindr hwn | |
| Enw | |
| Cyfeiriad post | |
| Gwlad | |
| Ffôn | |
| Ffôn symudol | |
| E-bost | |

ADRAN 2 - Sail ar gyfer Gwaharddiad Gorfodol

Fe gewch eich gwahardd o'r broses dendro hon os oes tystiolaeth o euogfarnau sy'n berthnasol i droseddau gan gynnwys, ond heb gyfyngiad, llwgrwobrwyo, llygredigaeth, cynllwynio, terfysgaeth, twyll a 'gwyngalchu' arian, neu os ydych wedi bod yn destun penderfyniad rhwymol cyfreithiol a ddyfarnodd eich bod wedi torri ar oblygiadau cyfreithiol i dalu treth neu oblygiadau nawdd cymdeithasol (ar wahân i lle bo'r rhain yn anghymesur e.e. symiau mân yn unig).

Os ydych wedi ateb "do" i gwestiwn 2.2 ar beidio â thalu treth neu gyfraniadau nawdd cymdeithasol, ac nad ydych wedi talu neu ymrwymo i drefniant rhwymedig i dalu'r swm llawn, gallwch osgoi gwaharddiad os mai symiau mân o drethi neu gyfraniadau nawdd cyhoeddus sydd heb eu talu neu os nad ydych wedi cael amser eto i gyflawni eich oblygiadau ers dod i wybod am y swm penodol sy'n daladwy. Os yw eich sefydliad mewn sefyllfa o'r fath darparwch fanylion gan ddefnyddio Atodlen ar wahân os gwelwch yn dda. Gallwch gysylltu ag S4C am gyngor cyn llenwi'r ffurflen hon.

| 2.1 O fewn y pum mlynedd diwethaf, a yw eich sefydliad, cyfarwyddwyr neu bartner neu unrhyw berson arall sydd â phwerau cynrychiolaeth, penderfynu neu reolaeth wedi ei ddyfarnu'n euog o unrhyw un o'r troseddau canlynol? | Nodwch eich ateb trwy roi 'X' yn y blwch perthnasol. | |
|---|---|----------------|
| | Ydy | Nac ydy |
| (a) cynllwynio o fewn ystyr adran 1 neu 1A o'r Ddeddf Cyfraith Troseddol 1977 neu erthygl 9 neu 9A o Orchymyn Ymgeisiau Troseddol a Chynllwynio (Gogledd Iwerddon) 1983 lle bo'r cynllwynio hwnnw'n ymwneud â bod yn rhan o sefydliad troseddol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o Benderfyniad Fframwaith y Cyngor 2008/841/JHA ar y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol; | | |
| (b) llygredigaeth o fewn ystyr adran 1(2) o Ddeddf Arferion Llwgr Cyrff Cyhoeddus 1889 neu adran 1 o'r Ddeddf Atal Llygredigaeth 1906; | | |
| (c) trosedd cyfraith gwlad o llwgrwobrwyo; | | |
| (ch) llwgrwobrwyo o fewn ystyr adrannau 1, 2 neu 6 o'r Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010; neu adran 113 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983; | | |

| | | |
|--|--|--|
| (d) unrhyw un o'r troseddau canlynol, lle bo'r drosedd yn ymwneud â thwyll sy'n effeithio ar ddiddordebau ariannol y Cymunedau Ewropeaidd fel y'i diffinnir gan Erthygl 1 o'r Confensiwn er diogelu diddordebau ariannol y Cymunedau Ewropeaidd: | | |
| (i) y drosedd o dwyllo Cyllid y Wlad; | | |
| (ii) y drosedd o gynllwynio i dwyllo; | | |
| (iii) twyll neu ddwyn o fewn ystyr y Ddeddf Dwyn 1968, y Ddeddf Dwyn (Gogledd Iwerddon) 1969, y Ddeddf Dwyn 1978 neu'r Orchymyn Ddwyn (Gogledd Iwerddon) 1978; | | |
| (iv) masnachu twyllodrus o fewn ystyr adran 458 o'r Ddeddf Cwmniau 1985, erthygl 451 o Orchymyn Cwmniau (Gogledd Iwerddon) 1986 neu adran 993 o'r Ddeddf Cwmniau 2006; | | |
| (v) osgoi twyllodrus o fewn ystyr adran 170 o'r Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 neu adran 72 o'r Ddeddf Treth ar Werth 1994; | | |
| (vi) trosedd yn ymwneud â threthi yn yr Undeb Ewropeaidd o fewn ystyr adran 71 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1993; | | |
| (vii) dinistrio, difwyno neu guddio dogfennau neu lyffethair gwerthfawr o fewn ystyr adran 20 o'r Ddeddf Dwyn 1968 neu adran 19 o'r Ddeddf Dwyn (Gogledd Iwerddon) 1969; | | |
| (viii) twyll o fewn ystyr adrannau 2, 3 neu 4 o'r Ddeddf Twyll; neu | | |
| (ix) meddiannu ar bethau i'w defnyddio i dwyllo o fewn ystyr adran 6 o'r Ddeddf Twyll 2006, neu wneud, addasu, cyflenwi neu gynnig i gyflenwi pethau i'w defnyddio i dwyllo o fewn ystyr adran 7 o'r Ddeddf honno; | | |
| (dd) unrhyw drosedd sydd wedi ei rhestru— | | |
| (i) yn adran 41 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2008; neu | | |
| (ii) yn Atodiad 2 i'r Ddeddf honno lle bo'r llys wedi penderfynu bod yna gysylltiad terfysgol; | | |
| (e) unrhyw drosedd o dan adrannau 44 i 46 o'r Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 sy'n ymwneud â throsedd a gwmpesir gan is-baragraff (f); | | |
| (f) 'gwyngalchu' arian o fewn ystyr adrannau 340(11) a 415 o'r Ddeddf Elw Troseddau 2002; | | |
| (ff) trosedd yn ymwneud ag elw o ymddygiad troseddol o fewn ystyr adran 93A, 93B neu 93C o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 neu erthygl 45, 46 neu 47 o'r Gorchymyn Elw Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1996; | | |
| (g) trosedd o dan adran 4 o'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr ayyb.) 2004; | | |
| (ng) trosedd o dan adran 59A o'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003; | | |

| | | |
|--|--|--|
| (h) trosedd o dan adran 71 o'r Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009; | | |
| (i) trosedd yn gysylltiedig ag elw o fasnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 49, 50 neu 51 o'r Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994; neu | | |
| (j) unrhyw drosedd arall o fewn ystyr Erthygl 57(1) o'r Gyfeireb Contractau Cyhoeddus— | | |
| (i) fel y'i diffinnir gan gyfraith unrhyw awdurdodaeth y tu allan i Gymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon; neu | | |
| (ii) a grëwyd, wedi'r dydd y gwnaed y Rheoliadau hyn, yng nghyfraith Cymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon. | | |
| <p><u>Peidio â thalu trethi</u></p> <p>2.2 A sefydlwyd gan unrhyw benderfyniad barnwrol neu weinyddol sydd ag effaith derfynol a rhwymol yn unol â darpariaethau cyfreithiol unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu ddarpariaethau cyfreithiol y wlad y sefydlwyd eich cwmni ynddi (os y tu allan i'r DU), bod eich sefydliad wedi torri ar oblygiadau yn ymwneud â thalu treth neu gyfraniadau nawdd cyhoeddus?</p> <p><i>Os ydych wedi ateb "do" i'r cwestiwn hwn, defnyddiwch Atodlen ar wahân i ddarparu rhagor o wybodaeth. Defnyddiwch yr Atodlen hon i gadarnhau os ydych chi wedi talu, neu wedi ymrwymo i drefniant rhwymol gyda'r bwriad o dalu, gan gynnwys, lle'n berthnasol, unrhyw log cronedig a/neu ddirwyon.</i></p> | | |

ADRAN 3 - Sail ar gyfer Gwaharddiad yn ôl Disgresiwn S4C

Gall S4C wahardd unrhyw Dendrwr sy'n ateb "ydy" yn unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol a nodir ym mharagraffau (a) i (ff).

| 3.1 O fewn y tair blynedd diwethaf, nodwch os yw unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn wedi bod yn berthnasol, neu'n berthnasol ar hyn o bryd, i'ch sefydliad. | Nodwch eich ateb trwy roi 'X' yn y blwch perthnasol. | |
|--|---|----------------|
| | Ydy | Nac ydy |
| (a) Mae eich sefydliad wedi torri oblygiadau perthnasol a gyfeirir atynt yn rheoliad 56 (2) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ym meysydd cyfraith amgylcheddol, cymdeithasol a llafur a sefydlwyd gan gyfraith yr UE, cyfraith cenedlaethol, cytundebau torfol neu gan y darpariaethau cyfreithiol rhyngwladol amgylcheddol, cymdeithasol a llafur a restrir yn Atodiad X i Gyfeireb Contractau Cyhoeddus fel y'i diwygir o dro i dro; | | |
| (b) Mae eich sefydliad yn fethdalwr neu'n destun achosion ansolfedd neu ddirwyn i ben, lle y mae eich asedion yn cael | | |

| | | |
|---|--|--|
| eu gweinyddu gan ddiddymwr neu gan y llys, lle y mae mewn trefniant gyda chredydwy, lle y mae gweithgareddau ei fusnes yn cael eu hatal neu ei fod mewn unrhyw sefyllfa gyffelyb sy'n deillio o weithdrefn debyg o dan gyfraith a rheoliadau unrhyw Wladwriaeth; | | |
| (c) Mae eich sefydliad yn euog o gamymddygiad proffesiynol dybryd, sy'n peri bod ei onestrwydd yn amheus; | | |
| (ch) Mae eich sefydliad wedi ymrwymo i gytundebau gyda gweithredwyr economaidd arall gyda'r nod o ystumio (distort) cystadleuaeth; | | |
| (d) Mae gan eich sefydliad wrthdaro buddiannau o fewn ystyr rheoliad 24 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 na ellir ei ddatrys gan fesurau arall, llai ymwthiol; | | |
| (dd) Mae ymwneud blaenorol eich sefydliad ym mharatodau'r broses gaffael wedi arwain at ystumiad (distortion) o'r gystadleuaeth, fel y cyfeirir ato yn rheoliad 41, na ellir ei ddatrys gan fesurau arall, llai ymwthiol; | | |
| (e) Mae eich sefydliad wedi dangos diffygion sylweddol neu barhaus wrth berfformio gofyniad sylweddol o dan gytundeb cyhoeddus blaenorol, cytundeb blaenorol gydag endid contractiol, neu gytundeb consesiwn blaenorol a wnaeth arwain at derfynu'r cytundeb blaenorol hwnnw yn gynnar, iawndal neu sancsiynau tebyg arall; | | |
| (f) Mae eich sefydliad— (i) wedi bod yn euog o gamliwiad difrifol wrth gyflenwi'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn gwirio absenoldeb y seiliau i wahardd neu gyflawni'r meini prawf dethol; neu (ii) wedi dal gwybodaeth o'r fath yn ôl neu nid yw'n medru cyflwyno dogfennau cefnogol sy'n ofynnol o dan reoliad 59 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015; neu | | |
| (ff) Mae eich sefydliad wedi ymrwymo i | | |
| (i) ddylanwadu'n ormodol ar broses benderfynu'r awdurdod contractio, neu | | |
| (ii) gael gwybodaeth gyfrinachol a all roi manteision gormodol i'ch sefydliad yn y broses gaffael; neu | | |
| (g) Mae eich sefydliad wedi darparu gwybodaeth gamarweiniol mewn modd esgeulus a all gael dylanwad materol ar benderfyniadau ynghylch gwahardd, dewis neu wobrwyo. | | |

Gwrthdaro buddiannau

Yn unol â chwestiwn 3.1 (d), gall SAC wahardd yr Ymgeisydd os oes yna wrthdaro buddiannau na ellir ei ddatrys yn effeithiol. Mae'r cysyniad o wrthdaro buddiannau'n cynnwys unrhyw sefyllfa lle bo gan aelodau perthnasol o'r staff, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ddiddordeb personol ariannol, economaidd neu arall a allai gael ei weld fel rhywbeth sy'n peryglu eu didueddrwydd ac annibyniaeth yng nghyd-destun y broses gaffael.

Lle bo unrhyw arwydd bod gwrthdaro buddiannau'n bodoli neu y gallai godi yna cyfrifoldeb yr Ymgeisydd ydyw i hysbysu S4C, gan fanylu ar y gwrthdaro mewn Atodlen ar wahân. Ni ddylai ymgysylltu arferol gan S4C cyn mynd i'r farchnad gynrychioli gwrthdaro buddiannau ar gyfer yr Ymgeisydd, ar yr amod ei fod wedi ei gynnal mewn modd tryloyw.

Ystyried Perfformiad Blaenorol Bidwyr

Yn unol â chwestiwn (e), gall S4C asesu perfformiad blaenorol yr Ymgeisydd (trwy Dystysgrif Perfformiad a ddarperir gan Gwsmer neu trwy ddulliau eraill o dystiolaeth). Gall S4C gymryd i ystyriaeth unrhyw fethiant i gyflawni rhwymedigaethau o dan brif gytundebau sylweddol blaenorol yr Ymgeisydd sy'n cwblhau'r ymateb i'r Tendr hwn. Gall S4C hefyd asesu os yw'r safonau lleiafswm ar gyfer dibynadwyedd a bennir (lle'n berthnasol) ar gyfer cytundebau o'r fath wedi eu cyrraedd.

Yn ogystal, gall S4C ail-asesu dibynadwyedd yn seiliedig ar berfformiad blaenorol ar adegau allweddol yn y broses gaffael (h.y. dethol Ymgeiswyr, gwerthuso tendrau, adeg dyfarnu cytundeb ayyb). Gellir gofyn i Ymgeiswyr ddiweddarau'r dystiolaeth y maent yn ei ddarparu yn yr adran hon i adlewyrchu'r perfformiad mwyaf diweddar ar gytundebau newydd neu gyfredol (neu i gadarnhau nad oes unrhyw newid).

'Hunan-olchi'

Dylai unrhyw Ymgeisydd sy'n ateb "ydy/do" i gwestiynau 2.1, 2.2 a 3.1 ddarparu tystiolaeth ddigonol, mewn Atodlen ar wahân, sy'n rhoi crynodeb o'r amgylchiadau ac unrhyw gamau adferol a gymerwyd yn ddiweddarach er mwyn "hunan-olchi" y sefyllfa y cyfeiriwyd ati yn y cwestiwn. Rhaid i'r Ymgeisydd ddangos ei fod wedi cymryd camau adferol o'r fath, i foddhad S4C ym mhob achos.

Os yw S4C yn ystyried bod y dystiolaeth o'r fath yn ddigonol (a bydd ei phenderfyniad yn derfynol), bydd gan y gweithredwr economaidd perthnasol yr hawl i barhau yn y broses gaffael.

Er mwyn i'r dystiolaeth a gyfeiriwyd ato uchod fod yn ddigonol, rhaid i'r Ymgeisydd, yn y man lleiaf, brofi ei fod wedi:

- talu neu ymrwymo i dalu iawndal yn gysylltiedig ag unrhyw niwed a achoswyd gan y drosedd neu'r camymddygiad;
- gwneud y ffeithiau a'r amgylchiadau'n glir mewn modd cynhwysfawr trwy gydweithredu gyda'r awdurdodau sy'n ymchwilio; ac
- wedi cymryd mesurau cadarn yn dechnegol, trefniadol ac o ran personél sy'n briodol i osgoi troseddau a chamymddygiad pellach.

Gwerthusir y mesurau a gymerwyd gan yr Ymgeisydd gan ystyried difrifoldeb ac amgylchiadau penodol y drosedd neu gamymddygiad. Lle bo S4C yn ystyried bod y mesurau'n annigonol, rhoddir datganiad i'r Ymgeisydd o'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

Adran 4 – Yswiriant

| | |
|--|--|
| Oes gennych yn barod, neu os y gallwch ymrwymo i gael, cyn cychwyn y cytundeb Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £10 miliwn | <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes |
|--|--|

Adran 5 – Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Cydraddoldeb

| | | |
|----|--|--|
| 1. | <p>O fewn y tair blynedd diwethaf, a oes unrhyw ddyfarniad o wahaniaethu anghyfreithlon wedi ei wneud yn erbyn eich sefydliad gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth neu unrhyw lys arall (neu mewn achosion cyfatebol mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am y DU)?</p> | <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes |
| 2. | <p>O fewn y tair blynedd diwethaf, a oes cwyn wedi ei gadarnhau yn erbyn eich sefydliad yn dilyn archwiliad gan y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb neu ei ragflaenwyr (neu gorff cyfatebol mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am y DU), ar sail gwahaniaethu anghyfreithlon honedig?</p> <p><i>Os ydych wedi ateb "oes" i un neu'r ddau gwestiwn yn y modiwl hwn, darparwch, mewn Atodlen ar wahân, grynodedb o natur yr ymchwiliad ac esboniad o ganlyniad yr ymchwiliad hyd yn hyn.</i></p> <p><i>Os gwnaeth yr archwiliad gadarnhau'r cwyn yn erbyn eich sefydliad, defnyddiwch yr Atodlen i esbonio pa gamau (os o gwbl) yr ydych wedi eu cymryd i atal gwahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.</i></p> <p><i>Fe ellir eich gwahardd os nad ydych yn medru profi at foddhad S4C eich bod wedi cymryd camau adferol priodol er mwyn atal gwahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.</i></p> | <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes |
| 3. | <p>Os ydych yn defnyddio is-gontractwyr, a oes gennych chi brosesau mewn lle i wirio os oes unrhyw un o'r amgylchiadau uchod yn berthnasol i'r sefydliadau eraill hyn?</p> | <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes |

Adran 6 – Rheolaeth Amgylcheddol

| | | |
|----|--|--|
| 1. | <p>Ydy eich sefydliad wedi ei gael yn euog o dorri ar ddeddfwriaeth amgylcheddol, neu gael hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo, o fewn y tair blynedd diwethaf gan unrhyw gorff rheoli neu awdurdod (gan gynnwys awdurdod lleol)?</p> <p><i>Os eich ateb i'r cwestiwn hwn yw "ydy", darparwch fanylion mewn Atodlen ar wahân am yr euogfarn neu hysbysiad a manylion am unrhyw gamau adferol neu newidiadau yr ydych wedi eu gwneud o ganlyniad i'r euogfarn neu'r hysbysiad a gyflwynwyd.</i></p> <p><i>Ni fydd S4C yn dewis bidiwr/wyr sydd wedi eu herlyn neu gael hysbysiad wedi ei gyflwyno iddynt o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol o fewn y 3 blynedd diwethaf, oni bai fod S4C yn fodlon bod camau adferol priodol wedi eu cymryd i atal digwyddiadau/toriadau o'r fath yn y dyfodol.</i></p> | <input type="checkbox"/> Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy |
| 2. | <p>Os ydych yn defnyddio is-gontractwyr, a oes gennych chi brosesau mewn lle i wirio os oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi eu herlyn neu gael hysbysiad wedi ei gyflwyno iddynt am dorri ar ddeddfwriaeth amgylcheddol?</p> | <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes |

Adran 7 – Iechyd a Diogelwch

| | | |
|----|--|--|
| 1. | Oes gan eich sefydliad Bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol cyfredol? | <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes |
| 2. | <p>Ydy eich sefydliad neu unrhyw un o'i Gyfarwyddwyr neu Swyddogion Gweithredol wedi derbyn gorchmynion gorfodi/adfer mewn cysylltiad ag Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (neu gorff cyffelyb) o fewn y 3 blynedd diwethaf?</p> <p><i>Os eich ateb i'r cwestiwn hwn yw "ydy", darparwch fanylion mewn Atodlen ar wahân am unrhyw orchmynion gorfodi/adferol a gyflwynwyd a rhowch fanylion am unrhyw gamau adferol neu newidiadau i weithdrefnau a wnaed gennych o ganlyniad.</i></p> <p><i>Bydd S4C yn gwahardd bidiwr/wyr sydd wedi derbyn gorchmynion gorfodi/camau adferol oni bai fod y bidiwr/wyr yn medru profi i foddhad S4C bod camau adferol priodol wedi eu cymryd i atal digwyddiadau/toriadau o'r fath yn y dyfodol.</i></p> | <input type="checkbox"/> Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy |
| 3. | Os ydych yn defnyddio is-gontractwyr, a oes gennych chi brosesau mewn lle i wirio os oes unrhyw un o'r amgylchiadau uchod yn berthnasol i'r sefydliadau eraill hyn? | <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes |

ADRAN 8 - Datganiad

Rwy'n cadarnhau:

- (a) bod gennyf yr awdurdod angenrheidiol i gwblhau a dychwelyd yr ymateb i'r Tendr hwn ar ran yr Ymgeisydd;
- (b) bod yr holl wybodaeth a roir yn yr ymateb i'r Tendr hwn, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, yn gyflawn a chywir; ac
- (c) y byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith i S4C petawn yn dod yn ymwybodol bod unrhyw wybodaeth a roddwyd yn yr ymteb i'r Tendr hwn yn anghyflawn neu'n anghywir mewn unrhyw ffordd.

Rwy'n cadarnhau ac yn cytuno ar ran yr Ymgeisydd:

1. fod S4C yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf FOI") ac efallai y bydd angen i S4C ddatgelu gwybodaeth a ddarperir gan neu ar ran yr Ymgeisydd i S4C, dan ddarpariaethau'r Ddeddf FOI. Mae'r Ymgeisydd wedi hysbysu S4C o'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd i S4C yn unol â'r ymateb i'r Tendr hwn sy'n sensitif ar lefel fasnachol neu sydd o natur gyfrinachol, ynghyd â'r rhesymau sy'n esbonio pam bod y wybodaeth o'r fath yn sensitif ar lefel fasnachol neu o natur gyfrinachol. Mae'r Ymgeisydd yn cydnabod na fydd nodi bod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif ar lefel fasnachol yn gwarantu y bydd y wybodaeth o'r fath yn cael ei hepgor o anghenion datgelu. Trwy lenwi a chyflwyno'r ymateb i'r Tendr hwn, mae'r Ymgeisydd yn derbyn y gallai S4C ddatgelu gwybodaeth o'r fath wrth ymateb i unrhyw gais a wneir dan Ddeddf FOI os bydd S4C o'r farn, yn unol â'i disgresiwn, ei bod yn briodol gwneud hynny;
2. trwy lenwi a chyflwyno'r ymateb i'r Tendr hwn, mae'r Ymgeisydd yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r cais ac mae'n cadarnhau ei fod wedi sicrhau pob caniatâd angenrheidiol gan drydydd partïon er mwyn galluogi S4C i wneud hynny;
3. trwy lenwi a chyflwyno'r ymateb i'r Tendr hwn, mae'r Ymgeisydd yn cytuno cadw unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a gaiff ei wneud ar gael iddo fel arall gan S4C, ym mha bynnag gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, yn gyfrinachol;
4. ni fydd yr ymateb i'r Tendr hwn wedi'i lenwi nac unrhyw gyfathrebiad rhwng S4C a'r Ymgeisydd yn cyfateb â chytundeb neu gynnig y gellir ei dderbyn neu gyflwyniad y bydd unrhyw gytundeb yn cael ei ddyfarnu ac mae S4C yn cadw'r hawl: (a) i dynnu yn ôl o a/neu roi'r gorau i a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg; ac/neu (b) i beidio â dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses dendro hon;
5. os canfyddir bod yr ymateb i'r Tendr hwn yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, mae S4C yn cadw'r hawl i wahardd yr Ymgeisydd o'r broses dendro hon ar ba bynnag gam y mae'r broses dendro hon wedi cyrraedd; ac
6. nad oes gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â gofynion S4C.

Llofnod:

Dyddiad:

Enw:

Swydd a Chwmni:
